# Polisi E-ddiogelwch
# E-Safety Policy

Ysgol Gymunedol Trimsaran

Medi 2024 / September 2024

Dyddiad adolygu/review date - Medi/September 2027

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

P

# Polisi E-Ddiogelwch

# Ysgol Gymunedol Trimsaran

| | |
|---|---|
| Dyddiad adolygu diwethaf: | Medi 2024 |
| Dyddiad adolygu nesaf: | Medi 2025 |
| Llofnod y Pennaeth: | Mr Steffan Jones |
| Llofnod Cadeirydd y Llywodraethwyr: | Mrs Kim Broom |

P

Mae'r polisi yma yn berthnasol i holl aelodau cymuned yr ysgol (gan gynnwys staff, myfyrwyr / disgyblion, gwirfoddolwyr, rhieni / gofalwyr, ymwelwyr, defnyddwyr cymunedol) sydd â mynediad i ac yn defnyddio'r systemau TGCh, yn yr ysgol a'r tu allan.

**Cyflwyniad:**
Mae gan yr ysgol gydlynydd Digidol, sy'n gyfrifol am unrhyw faterion sy'n codi o ganlyniad i gamddefnydd o'r we neu unrhyw broblemau cyffredinol sy'n codi yn sgil y dechnoleg ddiweddaraf. Bydd y polisi yn cael ei fonitro/hadolygu'n rheolaidd.

**Defnydd o'r rhyngrwyd:**
Mae'r Rhyngrwyd yn elfen hanfodol o fywyd yr 21ain ganrif ar gyfer addysg, busnes, a rhyngweithio cymdeithasol. Mae dyletswydd ar yr ysgol i ddarparu mynediad o safon i'r Rhyngrwyd ar gyfer y myfyrwyr fel rhan o'u profiad dysgu.

Mae mynediad i'r Rhyngrwyd yn un o hawliau'r disgyblion sy'n dangos agwedd gyfrifol ac aeddfed tuag at ddefnyddio'r cyfrwng. Mae defnydd o'r Rhyngrwyd yn rhan o'r cwricwlwm statudol ac yn offeryn angenrheidiol ar gyfer y staff a'r disgyblion.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd helaeth o'r Rhyngrwyd y tu allan i'r ysgol a bydd angen iddynt ddysgu sut i werthuso'r wybodaeth ar y we a chymryd gofal o'u diogelwch eu hunain.

**Sut mae defnyddio'r Rhyngrwyd yn fanteisiol i addysg?:**
- Mynediad i adnoddau addysgol byd-eang gan gynnwys amgueddfeydd ac orielau celf;
- wedi'i gynnwys yn Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes Cymru sy'n cysylltu pob ysgol yng Nghymru;
- cyfnewidiadau addysgol a diwylliannol rhwng disgyblion ar draws y byd;
- defnydd galwedigaethol, cymdeithasol a hamdden mewn llyfrgelloedd, clybiau ac yn y cartref;
- mynediad i ddisgyblion a staff i arbenigedd mewn sawl maes;
- datblygiad proffesiynol i'r staff drwy fynediad i ddatblygiadau cenedlaethol, deunyddiau addysgol ac arferion effeithiol mewn cyflwyno'r cwricwlwm;
- cydweithredu ar draws y gwasanaethau ategol a chymdeithasau proffesiynol;
- gwell mynediad i gymorth technegol gan gynnwys rheoli rhwydweithiau o bell a diweddariadau awtomatig i systemau;
- cyfnewid data ar y cwricwlwm ac ar weinyddiaeth gyda'r Awdurdod a'r Cynulliad;
- mynediad i ddysgu ble bynnag a phryd bynnag y mae hynny'n gyfleus.

**Gwersi:**
Gydag e-ddiogelwch yn rhan o gwricwlwm TGCh, mae gwersi e-ddiogelwch yn cael eu haddysgu drwy gydol y flwyddyn ysgol. Byddwn yn dathlu diwrnod diogelwch y we yn flynyddol. Yn y gwersi e-Ddiogelwch fe addysgir y plant i dderbyn cyfrifoldeb dros eu defnydd o'r we ac i'w gwneud yn ymwybodol o'r peryglon sydd ar y we.

**Rheoli Mynediad i'r Rhyngrwyd:**
Mae'r ysgol yn gweithio gyda Gwasanaethau TG Cyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau bod y systemau hidlo ar gyfer diogelu disgyblion yn gadarn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Os daw'r staff neu'r disgyblion ar draws safle anaddas, rhaid rhoi gwybod am hynny i'r Arweinydd Digidol. Os oes unrhyw gwyn ynghylch amddiffyn plant, rhaid gweithredu'n unol â pholisi amddiffyn plant yr ysgol (gweler polisi Amddiffyn Plant). Mae'r Sir hefyd yn gyfrifol am reoli systemau amddiffyn yn erbyn firysau ac fe'u diweddarir yn gyson.

**Gwefan ysgol:**
Mae gwefan yr ysgol yn gyswllt allweddol rhwng yr ysgol a chartrefi ein disgyblion. Diweddarwn y wefan yn gyson er mwyn rhannu'r wybodaeth, llwyddiannau diweddaraf. Derbyniwn ganiatâd rhieni cyn gosod lluniau'r disgyblion ar ein gwefan. Cedwir rhestr o'r plant sydd ddim â chaniatâd i ymddangos ar wefan yr ysgol, neu unrhyw rwydwaith gymdeithasol yr ysgol.

**E-bost:**
Gall disgyblion ond defnyddio cyfrifon e-bost a gymeradwywyd o fewn yr ysgol. Rhaid i ddisgyblion ddweud wrth athro/athrawes yn ddi-oed os ydynt yn derbyn e-bost tramgwyddus. Rhaid i ddisgyblion beidio â datgelu manylion personol am eu hunain nac am eraill mewn neges e-bost, na threfnu i gyfarfod ag unrhyw un heb ganiatâd penodol. Dylid defnyddio cyfeiriadau e-bost dosbarth cyfan neu grŵp, a safonir gan athro/athrawes, mewn ysgolion cynradd.

**Cynadledda fideo a gwe gamera:**
Os cymerir unrhyw ran mewn gwersi cynadledda fideo neu wersi gyda gwe gamera, ceir monitor agos gan yr athrawon ddosbarth. Ni does hawl gan blentyn ddefnyddio'r offer hwn heb ganiatâd neu heb bresenoldeb aelod o staff.

**Ffôn Symudol:**
Os mae angen dod mewn a ffôn symudol i'r ysgol gan ddisgybl, bydd rhaid i'r disgybl rhoi'r ffon i'r athro i'w cadw'n ddiogel tan ddiwedd y dydd. Ni chaniateir tynnu lluniau, fideo o'r disgyblion ar ffôn symudol personol staff. Gellir tynnu lluniau/fideo o'r disgyblion dim ond ar offer yr ysgol yn unig at ddibenion addysgol yn unig.

**Staff:**
Mae pob aelod o staff yn derbyn copi o Bolisi'r Ysgol ar e- Ddiogelwch ac yn deall ei bwysigrwydd. Mae ymddygiad proffesiynol o fewn yr ysgol a thu allan yn ddisgwyliedig.

**Sicrhau cefnogaeth rhieni a gwarchodwyr:**
Ceir gopi o'r polisi ar wefan yr ysgol.